PRESS RELEASE

DATGANIAD I'R WASG

For immediate release

COVID-19: Weekly waste collections update

Cardiff is moving to a new, weekly, kerbside-collection which will see all household waste (except garden waste) picked up at the same time.

Collection days for your area will remain the same, but the way waste is handled is changing to help manage the impact of COVID-19 and ensure the wellbeing of both residents and the workforce.

Starting on Monday, March 30th, all residents who have a black, wheelie bin must put their food waste and hygiene waste (nappies/medical waste etc) into the black bin for collection. Do not use your food caddy. Collections will be on the normal day for your area.

Residents that live in areas which don't have black wheelie bins must put hygiene waste (nappies/medical waste etc) in their red-striped bags for general waste. Food waste in bag areas should continue to go into your food caddy to stop animals and birds scattering food waste across streets.

Recycling collections will continue as normal and recycling bags should be put out weekly at the same time alongside other waste.

All residents, wherever you live in Cardiff, are asked to continue to recycle as normal, to rinse out their recycling and to put the correct recyclables in their green recycling bags. The council's A-Z or recycling is available here https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Rubbish-and-recycling/A-Z-of-recycling/Pages/default.aspx

Cllr Michael Michael, Cabinet Member for Clean Streets, Recycling and the Environment said: "We believe this new system will enable us to keep the streets clean throughout the COVID-19 outbreak, even if we see reductions in crew numbers as people have time off to recover from the virus.

"It's really important that residents help us to get this right by complying with the new arrangements. They have been designed to enable us to run a full service with a reduced workforce."

As general waste will now be collected weekly rather than fortnightly the council does not expect to see black bins overflowing or excess general waste left by the side of bins.

Cllr Michael, added: "We would only expect to be collecting waste which an average household might generate in a week.

"It's vitally important people don't try to take advantage of the new system and leave out items which they can't take to the HWRCs which we've had to close for social distancing reasons.

“We have set up a system which will work if people adhere to the recommendations. I know most of us want to keep our city clean throughout the emergency, so please do your bit to help. I know most of you will.”

Bulky waste and green garden waste collections

Bulky waste collections and green garden waste collections have been stopped until the emergency is over. Stopping these services will help the council deploy the workforce to keep our streets clean.

To simplify and ensure waste operations can continue with a reduced workforce we may be unable to sort recyclable waste during the emergency, as such, it will go to the energy from waste plant along with the residual waste. This is the safest way to dispose of waste that may be carrying Covid-19.

However, as strange as it seems, we still need you to put recyclables into your green recycling bags so that we can return to recycling the waste when we are able.

Also, if you don’t wash out and separate your green bags animals and birds will break them open scattering waste over the streets. With a reduced workforce it’ll become extremely difficult for us to manage and clean this up.

Cllr Michael added: “We know most of you will do the right thing, but we need all of you to do the right thing, for your city, your neighbours, for you and your family’s health.

“We are also asking you to wipe down your bin handles with disinfectant during the emergency for the safety of both yourselves and our staff.

“Please do your bit to help us stop the virus. Catch, it bin it and we will kill it.”

Green recycling bags remain available at the four key hubs which are, Central Library Hub; Powerhouse in Llanedeyrn, St Mellons Hub and Ely Hub. They can also be ordered online here https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Rubbish-and-recycling/Food-and-recycling-bags/Pages/default.aspx and we are redeploying staff to speed up home deliveries. We ask for your patience in the circumstances as we do our best to get bags to you.

Notes to Editor:

- The new waste collection arrangements will be uploaded onto the council website and the Council App as soon as possible. The information contained in this press release is correct and is final.

Cardiff Council Media Advisor Ian Lloyd-Davies Tel: 029 2087 2969

Email: **ILloyd-Davies@cardiff.gov.uk**

COVID-19: Diweddariad ar gasgliadau gwastraff wythnosol

Mae Caerdydd yn symud i drefn newydd wythnosol o gasglu gwastraff ymyl y ffordd a chaiff yr holl wastraff cartref (ac eithrio gwastraff gardd) ei gasglu ar yr un pryd.

Bydd y diwrnodau casglu ar gyfer eich ardal yn aros yr un fath, ond mae’r ffordd y caiff gwastraff ei drin yn newid i helpu i reoli effaith COVID-19 a sicrhau lles y preswylwyr a’r gweithlu.

Yn dechrau ddydd Llun, 30 Mawrth, mae’n rhaid i’r holl breswylwyr sydd â biniau olwynion du roi eu gwastraff bwyd a’u gwastraff hylendid (cewynnau/gwastraff meddygol ac ati) yn y bin du i’w casglu. Peidiwch â defnyddio eich cadi bwyd. Bydd y casgliadau yn digwydd ar y diwrnod arferol ar gyfer eich ardal.

Mae'n rhaid i breswylwyr sy'n byw mewn ardaloedd, nad oes biniau olwynion du ynddynt, roi'r gwastraff hylendid (cewynnau/gwastraff meddygol ac ati) yn eu bagiau streipiau coch ar gyfer gwastraff cyffredinol. Dylai'r gwastraff bwyd mewn ardaloedd â bagiau barhau i gael ei roi yn eich cadi bwyd i atal anifeiliaid ac adar rhag gwasgaru gwastraff ar hyd y strydoedd.

Bydd casgliadau ailgylchu yn parhau yn ôl yr arfer a dylid rhoi bagiau ailgylchu allan yn wythnosol ar yr un pryd â'r gwastraff arall.

Gofynnir i'r holl breswylwyr, ble bynnag y maent yn byw yng Nghaerdydd, i barhau i ailgylchu fel arfer, gan olchi eu hailgylchu a rhoi'r deunyddiau ailgylchu cywir yn eu bagiau ailgylchu gwyrdd. Mae tudalen A-Y o Ailgylchu ar gael yma https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Sbwriel-ac-ailgylchu/A-Y-o-ailgylchu/Pages/default.aspx

Dywedodd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd: "Rydyn ni'n credu y bydd y system newydd hon yn ein galluogi i gadw'r strydoedd yn lân drwy gydol y sefyllfa COVID-19, hyd yn oed os gwelwn ostyngiadau yn nifer y criw wrth i bobl gael amser i ffwrdd i wella o'r feirws.

"Mae'n hynod bwysig bod preswylwyr yn ein helpu ni i wneud hyn yn iawn drwy gydymffurfio â'r trefniadau newydd. Maent wedi eu cynllunio i'n galluogi ni i redeg gwasanaeth llawn gyda gweithlu llai."

Gan y caiff gwastraff cyffredinol ei gasglu'n wythnosol nawr yn hytrach na phob pythefnos, nid yw'r cyngor yn disgwyl gweld biniau du yn gorlifo gyda gwastraff cyffredinol gormodol wedi ei adael wrth ochr y biniau.

Ychwanegodd y Cynghorydd Michael: "Byddem yn disgwyl casglu dim ond y gwastraff y byddai aelwyd arferol yn ei gynhyrchu mewn wythnos.

"Mae'n hollol bwysig nad yw pobl yn ceisio manteisio ar y system newydd a gadael pethau allan na allant eu cludo i'r CAGCau yr oedd rhaid i ni eu cau am resymau ymbellhau cymdeithasol.

"Rydym ni wedi gosod system fydd yn gweithio os yw pobl yn glynu at yr argymhellion. Rwy'n gwybod bod y mwyafrif ohonon ni eisiau cadw ein dinas yn lân drwy gydol yr argyfwng, felly gwnewch eich rhan i helpu. Rwy'n gwybod bydd y rhan fwyaf ohonoch chi'n gwneud hyn."

Casgliadau gwastraff swmpus a chasgliadau gwastraff gardd

Mae casgliadau gwastraff swmpus a gwastraff gardd gwyrdd wedi eu hatal nes bydd yr argyfwng wedi dod i ben. Bydd atal y gwasanaethau hyn yn helpu'r Cyngor i ddefnyddio'r gweithlu i gadw ein strydoedd yn lân.

I symleiddio'r gweithrediadau gwastraff a sicrhau y gallant barhau gyda gweithlu llai, efallai na fydd yn bosib i ni ddidoli gwastraff ailgylchu yn ystod yr argyfwng, fel y cyfryw, bydd yn mynd i'r gwaith troi gwastraff yn ynni ynghyd â'r gwastraff gweddilliol. Dyma'r ffordd ddiogelaf o waredu gwastraff a all gludo Covid-19.

Fodd bynnag, er ei bod yn ymddangos yn rhyfedd, rydyn ni'n dal angen i chi rhoi eich deunyddiau ailgylchu yn eich bagiau ailgylchu gwyrdd fel y gallwn ddychwelyd i ailgylchu gwastraff pan fyddwn yn gallu.

Hefyd, os nad ydych yn golchi a gwahanu eich bagiau gwyrdd, bydd anifeiliaid ac adar yn eu torri ac yn gwasgaru'r gwastraff ar y strydoedd. Gyda gweithlu llai, bydd yn eithriadol o anodd i ni reoli a glanhau hyn.

Ychwanegodd y Cynghorydd Michael: "Rydyn ni'n gwybod y bydd y rhan fwyaf ohonoch yn gwneud y peth iawn, ond mae angen i chi i gyd wneud y peth iawn, ar gyfer eich dinas, eich cymdogion, ac ar gyfer eich iechyd ac iechyd eich teulu.

"Rydyn ni hefyd yn gofyn i chi lanhau handlenni eich biniau â diheintydd yn ystod yr argyfwng er eich diogelwch chi a diogelwch ein staff.

“Gwnewch eich rhan, os gwelwch yn dda, i’n helpu ni i atal y feirws. Cofiwch ei ddal, ei daflu a’i ddifa.”

Mae bagiau ailgylchu gwyrdd yn parhau i fod ar gael yn y pedwar prif hyb, sef Hyb y Llyfrgell Ganolog, y Powerhouse yn Llanedern, Hyb Llaneirwg a Hyb Trelái. Gallwch hefyd eu harchebu ar-lein yma https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Sbwriel-ac-ailgylchu/Archebwch-bagiau-bwyd-ac-ailgylchu/Pages/default.aspx ac rydym yn adleoli staff i gyflymu danfoniadau i aelwydydd. Gofynnwn am eich amynedd yn yr amgylchiadau wrth i ni wneud ein gorau glas i ddod â bagiau i chi.

Ymgynghorydd y Cyfryngau Cyngor Caerdydd Ian Lloyd-Davies, Ffôn: 029 2087 2969

E-bost: **ILloyd-Davies@caerdydd.gov.uk**

Nodiadau i’r Golygydd:

- Caiff y trefniadau casglu gwastraff newydd eu huwchlwytho i wefan y Cyngor ac App y Cyngor cyn gynted â phosibl. Mae’r wybodaeth yn y datganiad i’r wasg hwn yn gywir ac yn derfynol.